**CABINET**
**18 CHWEFROR 2020**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 18 Chwefror 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YNO:** Y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), y Prif Swyddog (Tai ac Asedau), y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Patrick Heesom.

## 138. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Bithell gysylltiad personol yn eitem rhif 12 ar y rhaglen – Cyfleusterau Cyhoeddus yng Nghanol Tref yr Wyddgrug.

## 139. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 140. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2020/21 - CAM TRI ÔL-SETLIAD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2020/21 Cam Tri Ôl-Setliad a oedd yn nodi sut allai'r Cyngor gyflawni cyllideb gyfreithiol a chytbwys ar gyfer 2020/21 ar gyfer cam tri y broses gosod cyllideb. Roedd y cyfrifon yn seiliedig ar uchafswm cynnydd blynyddol ar Dreth y Cyngor o 5%.

Roedd y rhagolygon ar gyfer 2020/21 wedi cael eu hadolygu er mwyn ystyried y 'risgiau agored' lle roedd angen gwneud darpariaeth ariannol er mwyn i'r gyllideb fod yn ddarbodus. Roedd y gwaith oedd ar y gweill ar yr opsiynau ariannu corfforaethol gweddillol wedi eu cwblhau ac roedd y canlyniadau wedi'u nodi o fewn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn egluro'r 'risgiau agored' gweddillol ar gyfer 2020/21. Darparwyd copïau o'r sleidiau i'w cyflwyno i holl aelodau mewn cyfarfod Cyngor Sir yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod dyfarniad cyflog athrawon i'w talu o'r ymgodiad cyffredinol mewn cyllid a gyhoeddwyd yn y Setliad Dros Dro. Felly roedd darpariaeth ar gyfer ymgodiad o 2% wedi ei gynnwys yn y gyllideb am gost ychwanegol o £0.726 miliwn. Roedd pwysau ychwanegol ar gyfer

Lleoliadau tu hwnt i'r Sir, y Gwasanaeth Crwner ac ar gyfer lleihad yng ngrant Gwastraff Cynaliadwy Llywodraeth Cymru wedi cael eu cynnwys ynghyd ag addasiadau i'r pwysau ar gyfer Ardoll Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cafodd y pwysau o ran cost ar gyfer AAA o £0.400 miliwn ei dynnu o'r rhagolygon wrth ddisgwyl am mwy o wybodaeth ar Grant penodol Llywodraeth Cymru a byddai'n cael ei ystyried fel risg agored yn 2020/21. Roedd yr addasiadau i'r pwysau hynny wedi lleihau'r bwlch rhagolygon o £15.629 miliwn a adroddwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr i £16.315 miliwn a rhoddodd fanylion am ddatrysiadau cyllideb, fel y nodwyd yn yr adroddiad, i gau'r bwlch. Roedd 'rhain yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, comisiynu gofal cymdeithasol a disgownt person sengl – adolygiad o hawl. Ar ôl ystyried hyn oll, roedd bwlch o £0.246 miliwn yn parhau.

Darllenodd y Cynghorydd Roberts ddatganiad ar ei ran ef, Aelod Cabinet Cyllid, y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol:

*"Mae'r Cabinet yn falch o allu argymell Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor cyfreithiol a chytbwys ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor. Wrth wynebu bwlch mawr yn y gyllideb, a oedd oddeutu £16 miliwn eleni, mae'r broses i osod y gyllideb wedi bod yn dasg anferthol unwaith eto.*

*Fel y mae ein hadroddiad yn odi, mae gennym fwlch gweddillol yn y gyllideb o £0.246 miliwn i'w gau yn erbyn rhagolygon cyllideb diwygiedig o £16.315 miliwn.*

*Er mwyn cau'r bwlch gweddillol ar Gam Tri'r broses Gosod Cyllideb, ac yn seiliedig ar gyngor y swyddog (fel y nodier yn 1.42 yr adroddiad), rydym wedi paratoi ar gyfer ymgodiad yn y grant penodol gwasanaethau cymdeithasol. Amcangyfrifwn y bydd yr ymgodiad mewn grant ar gyfer Sir y Fflint yn £0.426 miliwn. Yn seiliedig ar y cyngor cenedlaethol diweddaraf, rydym yn hyderus y gallwn ddyrannu'r grant hwn yn erbyn gwariant sydd wedi'i gynllunio'n barod ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2020/21. Byddwn yn defnyddio £0.246 miliwn o'r grant i gau'r bwlch.*

*Rydym wedi ymrwymo i gapio unrhyw gynnydd blynyddol yn Nhreth y Cyngor i 5.0%. O ystyried y dylwn fod â £0.180 miliwn o ymgodiad grant penodol gwasanaethau cymdeithasol ychwanegol, gyda chyllideb gytbwys, bwriadwn leihau'r cynnydd i Dreth y Cyngor i 4.75%.*

*Y cynnydd gwirioneddol mewn Treth y Cyngor ar gyfer gwariant gwirioneddol y Cyngor fydd 4.5%. Unwaith i'r cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o 0.25% gael ei ychwanegu i'n ffigwr – y cyfanswm yw 4.75%. Ar ein biliau Treth y Cyngor nid yw ardoll Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei ddangos ar wahân. Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn deall bod y cynnydd ar eu biliau yn cynnwys y ddau.*

*Ar gyfer talwr Treth y Cyngor, y cynnydd 'llinell sylfaen' cyfartalog ar gyfer aelwyd Band D – unwaith i braesept yr Heddlu a praesept Cynghorau Cymuned a Thref gael eu cynnwys – yw 4.68%. Mae rhan y Cyngor o'r ffi yn gyfystyr â £60.83 ar gyfer y flwyddyn gyfan a £5.07 bob mis.*

*Nid ar chwarae bach yr ydym ni'n pennu lefelau Treth y Cyngor. Byddai'n well gennym osod Treth y Cyngor yn nes at CPI. Fodd bynnag, mae'r cynnydd blynyddol rydym yn ei awgrymu tua'r cyfartaledd a ddisgwylir i Gymru, gyda rhai cymdogion yng Ngogledd Cymru heb ddewis ond gosod Treth y Cyngor ar gyfradd uwch. Mae Treth y Cyngor yn dod yn anghynaladwy ac ni ddylai Llywodraethau ddibynnu arni i wneud iawn am setliadau cyllid cenedlaethol annigonol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod ffigwr canllaw ar gyfer cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar draws Cymru ar 7.1%. Mae hyn yn addefiad gan Lywodraeth Cymru fod eu cyllid nhw'n annigonol i ddiwallu'r galw. Wrth fod yn 2.35% o dan y ffigwr canllaw, gall Sir y Fflint ddangos eu bod yn gwarchod y talwr Treth y Cyngor rhag gofynion afresymol.*

*Er ein bod ni bellach mewn sefyllfa i gydbwyso ein cyllideb flynyddol, rhywbeth a ymddangosai'n annhebygol pedwar mis yn ôl, nid ydym yn hunanfodlon o gwbl. Byddwn yn wynebu nifer o risgiau agored yn ystod y flwyddyn, ac unwaith eto byddwn angen bod yn ddarbodus wrth reoli ein cyllidebau yn llym. Mae ein cronfeydd wrth gefn a balansau ar eu lefel isaf erioed. Bydd yn hanfodol ein bod yn sefydlogi ac yna'n datblygu ein cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn i ddod.*

*Mae angen sicrwydd ar Sir y Fflint, a'r holl gynghorau eraill yng Nghymru, ynglŷn â chyllidebau gan lywodraethau. Ni allwn fynd drwy'r cylch blynyddol hwn o gynllunio ar gyfer yr anhysbys - gyda'r holl ofid a phryder a ddaw yn sgil hyn i gynifer o bobl sy'n dibynnu arnom.*

*Rydym nawr yn galw ar Lywodraeth newydd y DU i osod rhagolygon tair blynedd ar gyfer cynlluniau gwariant cyhoeddus, i weithio gyda'r cenhedloedd datganoledig i gytuno ar gynlluniau twf realistig ar gyfer eu cyllidebau datganoledig, i sicrhau bod canfod datrysiad cenedlaethol i ariannu gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth a gosod strategaeth genedlaethol ar gyfer ariannu dyfarniadau cyflog blynyddol y sector cyhoeddus. Rydym bellach yn disgwyl ymgodiadau blynyddol mewn cyllid llywodraeth gan Lywodraeth Cymru o leiaf 4%.*

*Rydym yn cefnogi argymhellion (1) i (8) yn barod ar gyfer y Cyngor prynhawn heddiw, gyda'r diwygiadau canlynol:-*

*Argymhelliad 5: 'Bod y Cabinet yn argymell cyllideb gyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor yn seiliedig ar gyfrifon o fewn yr adroddiad hwn ac o ystyried (1) y cyfraniad y bydd cyllid llywodraeth cenedlaethol ychwanegol yn ei wneud (2) cynigion Cam Tri ar gyfer datrysiadau ariannol corfforaethol a (3) yr ymgodiad disgwyliedig yn y grant penodol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol o £0.426 miliwn'.*

*Argymhelliad 6: 'Bod y Cabinet yn argymell y cynnydd blynyddol mewn Treth y Cyngor o 4.5% ar gyfer anghenion y Cyngor. Unwaith i ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gael ei ychwanegu y cynnydd llawn i Dreth y Cyngor fydd 4.75%.'*

Dywedodd y Cynghorydd Thomas bod angen rhaglen gyllido tair blynedd gan nad all y Cyngor barhau i weithredu a chynllunio ar sail blwyddyn i flwyddyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr pe cyflwynir cyllid gwaelodol, byddai hyn yn gyfystyr â thua £0.500 miliwn ar gyfer Cyngor Sir y Fflint, i'w roi i gronfeydd wrth gefn a balansau i dalu am y risgiau a nodwyd. Mynegodd ei ddiolch i swyddogion Strydwedd a Cludiant a Thai am y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y stormydd diweddar.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi a derbyn y rhagolygon cyllideb diwygiedig ar gyfer 2020/21 (mae'r rhagolygon yn nodi gofyniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol a'r bwlch yn y gyllideb sydd i'w gau yng ngham tri);

(b) Nodi bod (1) y rhagolygon diwygiedig yn seiliedig ar strategaeth rheoli risg a (2) bod y 'risgiau agored' sy'n weddill yn cael eu rheoli yn ystod 2020/21;

(c) Nodi'r dadansoddiad o'r Setliad Cyllideb Llywodraeth Leol Dros Dro, a chyfraniad y bydd y cyllid cenedlaethol ychwanegol yn ei wneud i gau'r bwlch yn y gyllideb;

(d) Cymeradwyo'r cynigion ar opsiynau cyllido corfforaethol er mwyn cyfrannu at gau'r bwlch gweddillol yn y gyllideb;

(e) Bod y Cabinet yn argymell cyllideb cyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor yn seiliedig ar gyfrifon o fewn yr adroddiad hwn ac o ystyried (1) y cyfraniad y bydd cyllid llywodraeth cenedlaethol ychwanegol yn ei wneud (2) cynigion Cam Tri ar gyfer datrysiadau ariannol corfforaethol a (3) yr ymgodiad disgwyliedig yn y grant penodol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol o £0.426 miliwn;

(f) Bod y Cabinet yn argymell y cynnydd blynyddol mewn Treth y Cyngor o 4.5% ar gyfer anghenion y Cyngor. Unwaith i ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gael ei ychwanegu y cynnydd llawn i Dreth y Cyngor fydd 4.75%;

(g) Nodi'r rhagolygon tymor canolig fel sail ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; a

(h) Bod y Cyngor yn galw ar y ddwy Lywodraeth i ymrwymo i dymor canolig tair blynedd.

## 141. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21 i'w gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ystyried a'i gefnogi gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr 2020. Fel ychwanegiad i'r wybodaeth yn yr adroddiad, darparwyd hyfforddiant i Aelodau'r Cyngor ar 11 Rhagfyr 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21 a'i argymell i'r Cyngor.

## 142. ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - POLISI 2020/21

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks adroddiad yr Isafswm Darpariaeth Refeniw – Polisi 2020/21 a oedd yn rhoi manylion o'r gofyniad ar awdurdodau lleol bob blwyddyn i roi adnoddau refeniw i un ochr fel darpariaeth ar gyfer ad-dalu dyled.

Gofynnwyd am gymeradwyaeth ar gyfer argymell yr adroddiad i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y canlynol yn cael ei argymell i'r Cyngor Sir ar gyfer dyled heb ei thalu'r Gronfa'r Cyngor:

- Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrif yr Isafswm Darpariaeth Refeniw ym mlwyddyn ariannol 2020/21 ar gyfer cydbwyso gwariant cyfalaf sy'n ddyledus wedi ei gyllido o fenthyca cefnogol wedi ei osod ar 31 Mawrth 2017. Bydd yn cael ei gyfrif yn ôl y dull 'blwydd-dal' dros 49 mlynedd.
- Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrif yr Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2020/21 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf wedi ei ariannu gan fenthyca cefnogol o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Bydd yn cael ei gyfrif yn ôl y dull 'blwydd-dâl' dros y nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.
- Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrif yr Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2020/21 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf wedi ei ariannu gan fenthyca (darbodus) nad yw wedi ei gefnogi neu drefniadau credyd. Bydd yn cael ei gyfrif yn ôl y dull 'blwydd-dâl' dros y nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.

(b) Bod y canlynol yn cael ei gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor Sir ar gyfer dyled heb ei thalu'r Cyfrif Refeniw Tai:

- Bod Opsiwn 2 (Dull Nawdd Cyfalaf Gofynnol) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfrif Isafswm Darpariaeth Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2020/21 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan ddyled.

(c) Bod y canlynol yn cael ei gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor Sir, bod Isafswm Darpariaeth Refeniw ar fenthyciadau gan y Cyngor i NEW Homes i adeiladu tai fforddiadwy drwy'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) (sy'n gymwys fel gwariant cyfalaf mewn telerau cyfrifeg) fel a ganlyn:

- Ni wneir Isafswm Darpariaeth Refeniw yn ystod y cyfnod adeiladu (sy'n fyr) gan nad yw'r ased mewn defnydd ac nad oes unrhyw fudd o'i ddefnydd.

- Unwaith mae'r asedau'n cael eu defnyddio, bydd ad-daliadau cyfalaf yn cael eu gwneud gan NEW Homes. Bydd Isafswm Darpariaeth Refeniw'r Cyngor yn gyfartal â'r ad-daliadau a wnaed gan NEW Homes. Bydd yr ad-daliadau a wneir gan NEW Homes yn cael eu dosbarthu, yn nhermau cyfrifeg, fel derbyniadau cyfalaf, ac ni ellir defnyddio'r rhain ddim ond i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled. Bydd yr ad-daliad cyfalaf/derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo i ad-dalu dyled, a dyma yw polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyngor i ad-dalu'r benthyciad.

## 143. MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin Adroddiad Monitro Chwarter 3 Cynllun y Cyngor 2019/20 oedd yn cyflwyno crynodeb o'r cynnydd monitro yn y trydydd chwarter (Hydref i Ragfyr 2019).

Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn adroddiad cadarnhaol gyda 89% o'r camau yn gwneud cynnydd da yn ôl yr asesiad a 89% yn debygol o gyflawni'r canlyniad a ddymunwyd. Yn ogystal â hyn, roedd 81% o'r dangosyddion perfformiad wedi'u diwallu neu wedi rhagori ar y targed. Roedd y risgiau yn cael eu rheoli'n llwyddiannus gyda'r mwyafrif yn cael eu hasesu'n risgiau cymedrol (71%) neu'n fân risgiau/risgiau ansylweddol (18%).

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi a chefnogi lefelau cynnydd, perfformiad a risg yn adroddiad monitro chwarter tri Cynllun y Cyngor 2019/20; a

(b) Bod y Cabinet wedi eu sicrhau gan gynlluniau a chamau gweithredu i reoli'r broses o gyflawni Cynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20.

## 144. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2019/20 (MIS 9)

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 (Mis 9) a oedd yn darparu'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf am sefyllfa monitro cyllideb refeniw 2019/20 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol a chyflwyno'r sefyllfa yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol ym Mis 9 o'r flwyddyn ariannol. Roedd yr adroddiad yn rhagamcanu beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai popeth yn aros heb ei newid.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol mai'r sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn, heb gamau gweithredu newydd i leihau pwysau o ran costau a/neu wella'r elw wrth gynllunio arbedion effeithlonrwydd a rheoli costau, oedd:

**Cronfa'r Cyngor**

- Roedd y diffyg gweithredol o £1.666m a oedd yn symudiad ffafriol o £0.226M o'r ffigwr diffyg £1.892M a adroddwyd ym Mis 8; a
- Rhagamcanwyd y bydd balans y gronfa wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2020 yn £3.203M.

**Y Cyfrif Refeniw Tai**

- Rhagwelir y bydd gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn yn £0.103M sydd yn uwch na'r gyllideb a oedd yn symudiad cadarnhaol o £0.028M o'r ffigwr diffyg o £0.131M a adroddwyd ym Mis 8; a
- Rhagwelwyd mai'r balans terfynol ar 31 Mawrth 2020 fydd £1.220M.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion ynglŷn â sefyllfa ragamcanol yn ôl portffolio; olrhain risgiau yn ystod y flwyddyn a materion sy'n dod i'r amlwg; cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn; materion eraill yn ystod y flwyddyn; effaith a risgiau MTFS; cronfeydd wrth gefn a balansau.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol lle mynegodd Aelodau eu pryder ar ddiffyg ariannol ysgolion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r adroddiad cyffredinol a'r swm wrth gefn a ragamcanwyd ar gyfer Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2020; a

(b) Nodi'r lefel derfynol o falansau a ragamcanwyd yn y Cyfrif Refeniw Tai.

**145. MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2019/20 (MIS 9)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2019/20 (Mis 9) a oedd yn crynhoi'r newidiadau a wnaed i'r Rhaglen Gyfalaf ers ei gosod ym mis Chwefror 2019 hyd at ddiwedd Mis 9 (Rhagfyr 2019), ynghyd â'r gwariant hyd yma a'r canlyniadau amcanol.

Roedd y Rhaglen Gyfalaf wedi gweld gostyngiad net o £19.009m yn ystod y cyfnod a oedd yn cynnwys:

- Gostyngiadau net o £13.544M (Cronfa'r Cyngor £8.141M, Cyfrif Refeniw Tai £5.403M);
- Dwyn ymlaen i 2020/21, cymeradwywyd ym Mis 6 o £5.115M; a
- Arbedion a nodwyd ym Mis 6 o £0.350M.

Y gwariant gwirioneddol oedd £43.367M.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y sefyllfa gyllido a adroddwyd ym Mis 6 ar gyfer y cyfnod tair blynedd yn gorffen yn 2021/22 yn ddiffyg o £0.723M. Roedd derbyniadau yn ystod y flwyddyn wedi cynyddu £0.030M o Fis 6 i roi diffyg arfaethedig diwygiedig yn y Rhaglen Gyfalaf ym Mis 9 o £0.693M ar gyfer 2019/20 – 2021/22, cyn derbyniadau cyfalaf ychwanegol a/neu ffynonellau cyllido eraill.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r adroddiad cyffredinol;

(b) Chymeradwyo'r addasiadau o ran dwyn cyllid ymlaen fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;

(c) Cymeradwyo cyllido cynlluniau o'r sefyllfa bresennol, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, a defnyddio arbedion a nodwyd yn yr adroddiad; a

(d) Cymeradwyo'r defnydd o gyllid Ysgogiad Economaidd.

**146. ESTYNIAD MARLEYFIELD HOUSE**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones adroddiad Estyniad Marleyfield House a oedd yn amlinellu cwmpas costau presennol ar gyfer y prosiect ac amcangyfrif o'r costau ar gyfer adeiladu.

Roedd dyluniad yr estyniad yn dangos dull arloesol i gefnogi unigolion mewn lleoliad preswyl. Roedd y dyluniad yn sympathetig i dopograffi'r safle ac yn galluogi mwy o le awyr agored i'w ddefnyddio a hygyrchedd i gefnogi lles preswylwyr. Roedd yn caniatáu cynnydd mewn gweithrediad, cyswllt gyda chyfleusterau presennol, ac yn cefnogi cyfleusterau gwell ar gyfer preswylwyr parhaol a all fod yn byw gyda cholled cof a dementia.

Roedd dadansoddiad cost dechreuol o ddylunio, dodrefn a chyfleusterau yn yr adeilad oddeutu £8.62M, gyda'r manylion llawn wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Roedd hyn yn gynnydd ers yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Ebrill 2019, pan adroddwyd mai'r cost arfaethedig oedd £7.6M. Roedd y rhesymau dros y cynnydd hefyd wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol bod hwn yn brosiect arloesol a chyffrous a fyddai'n cael effaith cadarnhaol ac yn elwa preswylwyr newydd a'r rhai presennol. Bydd gwaith tirlunio helaeth i'r mannau allanol a fydd yn hwyluso symudiad ar draws y cartref ac integreiddio'r adeiladau presennol a newydd. Darparodd fanylion am yr amserlenni hefyd.

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i bawb oedd yn rhan o'r prosiect a oedd yn esiampl da o weledigaeth y Cyngor i ofalu am aelodau diamddiffyn o'r cyhoedd. Croesawodd holl Aelodau eraill y cynllun a oedd yn raglen flaenllaw ar gyfer Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r dyluniad presennol ar gyfer yr estyniad, gan gynnwys ei fforddiadwyedd gyda'r costau presennol a'r gyllideb ar gael; a

(b) Cymeradwyo fod y Cyngor yn mynd i gytundeb gyda'r cwmni adeiladu yn ystod Mawrth 2020, gydag awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Phrif Swyddog (Tai ac Asedau) i drafod y cynllun cost terfynol, o fewn amrywiad o 5% o'r rhagamcanion presennol a nodwyd yn yr adroddiad.

**147. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WEITHGARWCH AROLYGIAETH GOFAL CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones adroddiad ar y Wybodaeth Ddiweddaraf am Weithgarwch Arolygiaeth Gofal Cymru a oedd yn crynhoi canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn chwe diwrnod o weithgarwch wedi'i ffocysu / gweithgarwch ymgysylltu gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rheoleiddiodd Arolygiaeth Gofal Cymru wasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru (LlC).

Eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod yr adborth ffurfiol gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar y gweithgarwch a gyflawnwyd ym mis Chwefror, Mehefin a Hydref 2019 wedi bod yn gadarnhaol ac wedi amlygu nifer o feysydd lle berfformiodd y Cyngor yn dda iawn a lle roedd tystiolaeth o ganlyniadau da wedi'u cyflawni ar gyfer pobl yn y gymuned. Amlinellwyd crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adroddiad, gan nodi'r meysydd ar gyfer gwella.

Bydd y gweithgarwch wedi'i ffocysu nesaf mewn perthynas â chynnydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymweld ag unigolion a gweithwyr sy'n rhan o'r gwasanaeth cynnydd ym mis Chwefror 2020, gan edrych ar brosesau, canlyniadau a dyheadau ar gyfer y gwasanaeth.

Croesawodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad a dywedodd ar ymweliadau diweddar a wnaeth i'r adrannau, bod yr holl weithwyr yn angerddol am y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn eu gweithgarwch wedi'i ffocysu / ymgysylltiad diweddar gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol;

(b) Nodi'r ymateb i unrhyw feysydd ar gyfer gwelliant a ganfuwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod y flwydd; a

(c) Mae'r Cabinet yn cael eu hysbysu am weithgarwch wedi'i ffocysu sydd ar y gweill gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn Sir y Fflint.

**148. DARPARIAETH CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS YN YR WYDDGRUG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas adroddiad Cyfleusterau Cyhoeddus yng Nghanol Tref yr Wyddgrug a oedd yn darparu manylion y cynigion ar gyfer y cynllun yn yr Wyddgrug.

Roedd yr adolygiad a gyflawnwyd wedi cadarnhau y dylid darparu un cyfleuster o safon uchel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yng Nghanol Tref yr Wyddgrug a dylid lleoli'r cyfleuster yng Ngorsaf Fysiau Heol y Brenin a fyddai'n cefnogi dyheadau'r Cyngor am Ganolfan Gludiant a oedd yn cael ei ddatblygu ar

y safle.  Roedd Cyngor Tref yr Wyddgrug wedi cael y cyfle i reoli cyfleuster Stryd Newydd ac roedd hynny'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

O ystyried y byddai costau sylweddol i ddod â chyfleuster Stryd Newydd i safon addas, mae'r Cyngor Tref wedi cytuno gweithio gyda'r Cyngor Sir i wella'r cyfleusterau yn Heol y Brenin a defnyddio'r tir sydd ar gyfleuster Stryd Newydd i elwa trigolion y dref drwy gynyddu argaeledd parcio ym maes parcio Stryd Newydd.

Bydd y prosiect ehangach yn cynnwys y canlynol:

- Uwchraddio cyfleuster toiledau presennol Heol y Brenin i ddarparu cyfleuster o safon uchel gydag arwyddion o ganol y dref, a darparu cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr bys, sy'n ymweld â'r Wyddgrug neu'n defnyddio'r Ganolfan Gludiant ar eu ffordd i leoliadau eraill;
- Cwblhau gwaith i wella'r orsaf fysiau, gan gynnwys cyflwyno system unffordd dros yr orsaf a darparu pwynt aros ar gyfer grwpiau bys sy'n ymweld â'r dref;
- Uwchraddio'r ciosg ger y cyfleuster cyhoeddus a cheisio marchnata'r adeilad ar gyfer caffi bychan neu fusnes coffi i fynd;
- Dymchwel cyfleuster toiledau Stryd Newydd;
- Ailalinio ac ail-ddylunio'r maes parcio i gynyddu capasiti o 15;
- Darparu dau bwynt gwefru ceir trydan; ac
- Rhoi wyneb newydd i faes parcio Stryd Newydd.

Bydd y cynllun yn destun ymarfer ymgynghori cyhoeddus a bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda gweithredwyr bysiau sy'n rhedeg o orsaf fysiau yr Wyddgrug.  Bydd y broses ymgynghori hefyd yn cynnwys adborth ar y dewis i godi ffi ar ddefnyddwyr y cyfleuster, er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael i gynnal a chadw'r cyfleuster yn y dyfodol ac i ddarparu rhwystr rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cyfleuster.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Cymeradwyo'r gwaith uwchraddio i'r cyfleuster cyhoeddus presennol yng Ngorsaf Fysiau Heol y Brenin a bod y toiledau ym Maes Parcio Stryd Newydd yn cael eu dymchwel i gynyddu llefydd parcio, yn dilyn penderfyniad y Cyngor Tref i wrthod y cynnig o gymryd cyfrifoldeb cynnal a chadw'r cyfleuster; a

(b) Cymeradwyo cwblhau gwelliannau i'r Gorsaf Fysiau.

## 149. INCWM RHENT TAI

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad Incwm Rhent Tai a oedd yn darparu manylion ar sefyllfa ddiweddaraf casglu rhent.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Cabinet, roedd gwaith sylweddol wedi cael eu gyflawni dros y chwe mis diwethaf i sefydlogi sefyllfa ôl-ddyledion rhent, gyda'r gwaith yn cynnwys:

- Cynyddu adnoddau;

- Cyflwyno ymyrraeth gynnar;
- Mabwysiadu dull mwy cadarn am bwysigrwydd talu rhent ar amser; a
- Buddsoddi mewn technoleg newydd

Roedd yr holl waith wedi dod ynghyd ac am y tro cyntaf ers 2016/17 roedd casgliadau rhent yn gwella ac ôl-ddyledion rhent yn lleihau. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, roedd ôl-ddyledion rhent yn 2019/20, hyd at wythnos 42, yn £2.04M o'i gymharu â £2.18M ar yr un adeg yn 2018/19, gan ddangos lleihad o £143,000.

Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) bod cynnydd cyson yn cael ei wneud i leihau ôl-ddyledion rhent a bod hynny'n cael ei gyflawni o ganlyniad uniongyrchol i:

- Gynyddu adnoddau;
- Cyflwyno canolbwynt ymyrraeth gynnar i gynorthwyo'r tenantiaid hynny mewn mwy o risg o golli eu cartrefi;
- Mabwysiadu dull mwy cadarn am bwysigrwydd talu rhent ar amser; a
- Buddsoddi mewn Meddalwedd 'Rent Sense' Mobysoft.

Roedd y gwasanaeth Refeniw yn parhau i gymryd camau cyfreithiol fel ateb olaf yn erbyn y tenantiaid hynny nad oedd yn ymgysylltu ac yn methu talu rhent ar amser. Gydag oddeutu 7,100 o denantiaid, dim ond 20 achos o droi allan oedd wedi digwydd hyd yn hyn yn 2019/20 am ôl-ddyledion rhent difrifol ac ar ôl cyflawni holl opsiynau adennill eraill gan y Cyngor, a dim ond ar ôl i'r system cyfreithiol fodloni bod popeth wedi cael ei wneud i gefnogi'r tenant.

Dywedodd y Rheolwr Refeniw bod effaith Credyd Cynhwysol yn amlwg ar y graff yn yr adroddiad ac er gwaethaf heriau parhaus i gynyddu'r nifer o denantiaid sy'n dod oddi ar Fudd-Dal Tai i'r system Credyd Cynhwysol, roedd y gwasanaeth tai wedi gweithio'n galed i herio effeithiau anochel y mae mwyafrif o landlordiaid cymdeithasol yn profi wrth godi ôl-ddyledion rhent.

Croesawodd Aelodau'r adroddiad, yn arbennig yr ymyraethau cynnar i gynorthwyo tenantiaid.

**PENDERFYNWYD:**

Bod sefyllfa ariannol ddiweddaraf ôl-ddyledion rhent yn 2019/20, yn cael ei nodi.

**150. Y DIWEDDARAF AM DDIWYGIO'R GYFUNDREFN LES**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin adroddiad y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Diwygiad Lles a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith roedd 'Gwasanaeth Llawn' Credyd Cynhwysol a diwygiadau lles eraill yn ei chael ar breswylwyr Sir y Fflint a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i liniaru a chefnogi aelwydydd.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y canlynol, a manylion o effaith bob un yn Sir y Fflint:

- Tynnu Cymhorthdal Ystafell Sbâr;
- Uchafswm Budd-Daliadau;
- Credyd Cynhwysol;
- Cymorth i Hawlio Gwasanaeth;
- 'Ymfudo a Reolir' Credyd Cynhwysol;
- Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor;
- Tîm Diwygiad Lles; a
- Taliadau Tai Dewisol.

Croesawodd y Cynghorydd Bithell y gwaith oedd yn cael ei gyflawni gan y gwasanaeth i leihau effeithiau llawn y diwygiadau rhag bod yn faich ar drigolion diamddiffyn Sir y Fflint. Cytunodd y Cynghorydd Thomas a dywedodd nad oedd Cyngor Sir y Fflint wedi dod ymlaen ar gyfer y peilot, a bod hyn wedi cael ei orfodi ar y Cyngor gan y Llywodraeth Ganolog, a gwnaeth sylw ar y nifer sylweddol o broblemau gyda Chredyd Cynhwysol.

O ran y data nad oedd ar gael i'r Cyngor gan Gyngor ar Bopeth Gorllewin Swydd Gaer, dywedodd y Prif Weithredwr bod hyn yn cael ei uwchgyfeirio i sicrhau bod gwybodaeth ar gael.

Gofynnodd y Cynghorydd Thomas os oedd penderfyniad blaenorol y Cabinet i ysgrifennu ar y Llywodraeth Ganolog gyda phryderon wedi cael ei gyflawni. Eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi paratoi llythyr drafft ac y byddai'n rhannu cynnwys y llythyr gydag Aelodau'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi'r adroddiad gan gynnwys y gwaith parhaus i reoli'r effaith mae Diwygiadau Lles yn ei chael a bydd yn parhau i'w chael ar aelwydydd mwyaf diamddiffyn Sir y Fflint.

## 151. ADOLYGIAD O'R POLISI SCRIM (PEIRIANT YMCHWILIO ARFEROL CYFERNOD GRYM TUA'R OCHR)

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas adolygiad o'r Adolygiad o'r Polisi Peiriant Ymchwilio Arferol Cyfeirnod Grym tua'r Ochr (SCRIM) a oedd yn ceisio alinio polisi'r Cyngor gyda chanllawiau Arferion Da Cynnal a Chadw Priffyrdd newydd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Polisi Peiriant Ymchwilio Arferol Cyfeirnod Grym tua'r Ochr a Llawlyfr Gweithredol ar gyfer rheoli Ymwrthedd Sgidio ar y Rhwydwaith Priffyrdd Mabwysiedig; a

(b) Cefnogi adolygiad o'r rhwydwaith i ailddosbarthu safleoedd yn dilyn newidiadau i isadeiledd a chyfyngiadau cyflymder lleol.

**152. YMARFER PWERAU DIRPRWEDIG**

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

**Tai ac Asedau**

- **Rhent Tai Cyngor – Diddymu Hen Ôl-Ddyledion Tenantiaeth yn Dilyn Achos o Droi Allan**
  Mae Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (adran 5.2) yn nodi bod dyledion drwg a rhai na ellir eu hadennill sydd werth dros £5,000 yn cael eu hystyried i'w dileu ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol.

  Penderfyniad i ddiddymu mewn perthynas â 5 achos o rent heb ei dalu mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau i droi tenantiaid allan o ganlyniad i beidio â thalu rhent. Yn dilyn camau i droi allan, ystyrir hen ôl-ddyledion tenantiaeth ymhob achos fel rhai nad ellir eu hadennill ac nid oes unrhyw obaith o ddiogelu taliad. Cyfanswm y rhent heb ei dalu mewn perthynas â'r 5 achos yw £35,046.55.

**Strydwedd a Chludiant**

- **Adeiladu twmpathau sinwsoidaidd a thwmpathau gyda phen gwastad yn Leaches Lane, Mancot Lanes a Hawarden Way, Mancot**
  Hysbysu'r aelodau o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn hysbysebu gwaith adeiladu arfaethedig o dwmpathau sinwsoidaidd a thwmpathau gyda phen gwastad yn Leaches Lane, Mancot Lanes a Hawarden Way, Mancot.

- **Ffioedd a Thaliadau Gwaith Stryd ar gyfer 2020/21**
  Mae ffioedd a thaliadau a godir ar gyfer trwyddedau a cheisiadau amrywiol o fewn Gwaith Stryd wedi eu hadolygu ac mae'r taliadau arfaethedig ar gyfer 2020/21 wedi'u nodi yn y tabl.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**153. TENDR YSWIRIANT 2020**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad Tendr Gwasanaethau Yswiriant 2020 a oedd yn darparu manylion o ymarfer tendro cyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a gyflawnir ac yn cael ei reoli gan Frocer y Cyngor ynghyd â staff caffael ac yswiriant.

Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn datgan bod angen i unrhyw gontract tu hwnt i £2.000M gael ei adrodd i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi’r trefniadau ar gyfer caffael Gwasanaethau Yswiriant; ac

(b) Yn dilyn gwerthusiad llawn a chadarn o’r cynigion, dirprwyo’r awdurdod i’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i wobrwyo’r Cytundebau Hirdymor i’r ymgeiswyr llwyddiannus.

**154. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o’r wasg yn bresennol ac nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 am a daeth i ben am 11.21 am)

..................................................

**Y Cadeirydd**